SESIWN 2: GWAITH GWEDDUS YNG NGHYMRU

Ystod oedran: 11-18 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn trafod eu barn am osodiadau'n ymwneud â gwaith gweddus a'r sefyllfa yng Nghymru. Byddant wedyn yn ystyried astudiaethau achos o bobl sy'n ceisio gwneud i newid ddigwydd, fel ymgyrch bwlch cyflog rhwng y rhywiau gan gylchgrawn *Grazia*, prosiect mentergarwch yn ne Cymru ac ymgyrch Oxfam Cymru am Gyflog Byw.

Amcanion dysgu

- Dysgu am rai o'r camau mae gwahanol grwpiau yn cymryd i sicrhau bod gan bawb fynediad at waith gweddus.
- Ystyried ymhellach eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill am fyd gwaith a sut gallant ddylanwadu ar fyd gwaith
- Trafod barn a syniadau yn effeithiol mewn grwpiau.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn ystyried a datblygu eu barn eu hunain am waith gweddus a'r sefyllfa yng Nghymru.
- Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn mae rhai unigolion, grwpiau a sefydliadau yn gwneud i helpu pobl i gael mynediad at waith gweddus.
- Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau ynglŷn â pha ffactorau gwaith gweddus sydd bwysicaf iddynt ac yn ystyried pwy sydd â'r pŵer i gael effaith ar y ffactorau hyn.

Cwestiynau allweddol

- Beth sydd angen newid er mwyn helpu pawb i gael mynediad at waith gweddus?
- Pwy sydd â'r pŵer i gael effaith ar sut beth yw gwaith?
- Pa ffactorau gwaith gweddus swydd bwysicaf i mi?
- Beth ydw i eisiau gweld i'r dyfodol?

Adnoddau

- Sioe sleidiau *Beth yw gwaith gweddus?* (sleidiau 8 i 14)
- Taflenni adnodd:
  - *Pwy sy'n dylanwadu ar b'un a yw gwaith yn weddus?*
  - Astudiaethau achos *Gwneud i newid ddigwydd*
  - *Ffactorau gwaith gweddus – Fersiynau A a B* (gweler Sesiwn 1)
- Arwyddion *Cytuno'n gryf* ac *Anghytuno'n gryf*
- Arwyddion *Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Cyflogwyr a Fi*

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymru

Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith
Cyfnodau Allweddol 3 a 4

- Ystyried eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill ynglŷn â dysgu, gyrfaoedd a byd gwaith i gyfarwyddo barn a phenderfyniadau
- Cyfathrebu'n glir yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n briodol, ynglŷn â gyrfaoedd a byd gwaith

ÔI-16

- Archwilio eu tybiaethau a'u dyheadau eu hunain a phobl eraill a gwneud y defnydd gorau o hyn wrth wneud penderfyniadau
- Cyfathrebu'n hyderus a chydlynol, yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n briodol, ynglŷn â gyrfaoedd a byd gwaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau

Gweithgaredd 1 *(15 munud)*

Llinell gytuno

Noder: I gael mwy o wybodaeth am ddefnyddio'r llinell gytuno (a elwir hefyd yn gontinwwm barn) gweler tudalen 16 dogfen Oxfam Dinasyddiaeth fyd-eang yn yr ystafell ddosbarth: canllaw i athrawon*:* http://www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship/global-citizenship-guides

- Dangoswch sleid 9 sy'n dangos yr ystadegyn canlynol: Mae 23% o bobl Cymru mewn tlodi cymharol. Trafodwch sut mae'r dysgwyr yn teimlo am yr ystadegyn hwn?

Trafodwch beth yw ystyr '*tlodi cymharol*'.

Rydym yn clywed yn aml am dlodi absoliwt neu dlodi eithafol. Mae hyn yn golygu nad oes gan bobl yr elfennau sylfaenol sydd eu hangen i oroesi, fel bwyd, dŵr, a lloches. Dwedir bod rhywun yn byw mewn tlodi absoliwt neu eithafol os oes ganddynt lai na US$1.90 y diwrnod at eu holl anghenion.

Er nad dyma'r achos yn y Deyrnas Unedig (am ei bod yn wlad gyfoethocach), y mae pobl yn byw mewn tlodi cymharol. Dwedir bod pobl yn byw mewn tlodi cymharol os ydynt yn dlawd o gymharu ag eraill yn eu gwlad.

Esboniwch wrth y disgyblion, er y gallai fod gan bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol yr elfennau sylfaenol i oroesi drwy fod â phethau fel bwyd, dŵr a lloches, mae ansawdd yr eitemau hyn a/neu eu mynediad iddynt yn is. Er enghraifft, efallai bod gan rai pobl sy'n byw mewn tlodi cymharol yn y Deyrnas Unedig ddigon o fwyd i oroesi, ond efallai na allant fforddio tri phryd y dydd neu fwyta diet iach, maethlon a chytbwys. Yn sgil hynny mae'r defnydd o fanciau bwyd wedi cynyddu'n syfrdanol yn y blynyddoedd diwethaf: mae Oxfam a Church Action on Poverty wedi cyfrifo y rhoddwyd 20,247,042 o brydau i bobl sydd mewn tlodi bwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2013/14 gan y tri sefydliad pennaf sy'n darparu cymorth bwyd. Mae hyn yn gynnydd o 54 y cant ar 2012/13 (I gael mwy o wybodaeth, gweler policy-practice.oxfam.org.uk/publications/below-the-breadline-the-relentless-rise-of-food-poverty-in-britain-317730).

Caiff tlodi incwm cymharol ei fesur drwy gymharu incwm aelwyd, wedi'i addasu i ystyried maint y teulu, gyda'r incwm canolrifol. Yr incwm canolrifol yw'r incwm 'canol', lle mae gan hanner y boblogaeth fwy na'r canolrif, a chan yr hanner arall lai na'r canolrif. Dwedir bod aelwydydd yn byw mewn tlodi cymharol os yw eu hincwm yn llai na 60% o'r incwm canolrifol.

- Crëwch linell gytuno. Gosodwch arwydd 'Cytuno'n gryf' ar un ochr yr ystafell ac arwydd 'Anghytuno'n gryf' yr ochr arall. Dwedwch eich bod am ddarllen ambell osodiad yn uchel a bod gofyn i'r dysgwyr sefyll rywle ar hyn y llinell gytuno i ddangos faint maen nhw'n cytuno neu'n anghytuno â phob gosodiad. Esboniwch y bydd barn pawb yn gorwedd rywle ar hyd y llinell ac nad oes unrhyw atebion 'cywir' nac 'anghywir' o anghenraid.
- Efallai yr hoffech gyflwyno gosodiad fel ymarfer, e.e. 'Mae rygbi yn wych', er mwyn i'r dysgwyr gynhesu ac ymgyfarwyddo â defnyddio'r llinell gytuno.
- Gosodiadau llinell gytuno (*Noder: mae'r gosodiadau hyn hefyd wedi'u darparu yn sleidiau 10 i 13*):
    1. *Gwaith yw'r ffordd orau i bobl godi'u hunain o dlodi.*
    2. *Anodd yw dod o hyd i waith gweddus yng Nghymru.*

3. *Dylai fod gan bawb yr hawl i waith gweddus.*
4. *Mae'r isafswm cyflog sy'n cael ei osod gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn ddigon i fyw arno.* (Gweler Canllaw'r Athrawon i gael gwybodaeth am yr isafswm cyflog).

- Mae'r materion hyn yn gymhleth. Dyma rai pwyntiau i gefnogi'r drafodaeth ar y tri gosodiad cyntaf:
  - *Gall gwaith â thâl gynorthwyo pobl i 'godi'u hunain o dlodi' drwy ddarparu incwm. Ond mae 50% o'r aelwydydd sy'n byw mewn tlodi cymharol yn cynnwys o leiaf un person sydd mewn swydd.*
  - *Pan maent yn gweithio, mae rhieni yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant addas a fforddiadwy i'w plant.*
  - *Gall faint o waith sydd ar gael fod yn anodd ei ragweld os yw rhywun yn hunangyflogedig, ar gontract dim oriau, neu'n dibynnu ar waith asiantaeth.*
  - *Mae gwaith di-dâl fel profiad gwaith neu wirfoddoli yn aml yn ffordd ddefnyddiol i bobl fagu profiad a allai eu helpu i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau mewn maes penodol.*
  - *Mae rhai pobl yn methu â gweithio yn sgil salwch neu anabledd hirdymor sy'n eu hatal rhag gallu cael i mewn i rai gweithleoedd penodol.*
- I weld trafodaeth ar osodiad 4, gweler y nodiadau yng *Nghanllaw'r Athrawon* ar y Cyflog Byw.
- Dangoswch sleid 14 sy'n rhoi cyfres o ystadegau yn ymwneud â sefyllfa byd gwaith yng Nghymru. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r ystadegau hyn. Dyma rai cwestiynau posibl:
  - *A yw unrhyw rai o'r ystadegau hyn yn eich synnu? Pa ystadegau, a pham?*
  - *Sut mae'r ystadegau hyn yn gwneud ichi deimlo?*

Gweithgarwch 2 *(20 munud)*

Beth mae eraill yn gwneud i greu gwaith gweddus yng Nghymru?

- Esboniwch fod llawer o unigolion, grwpiau, elusennau a chyflogwyr yn gweithio i sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad i waith gweddus.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o bedwar neu bump. Rhowch un o astudiaethau achos *Gwneud i newid ddigwydd* i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen eu hastudiaeth achos ac wedyn mynd ati i drafod y cwestiynau canlynol fel grŵp:
  - *Beth yw'r broblem?*
  - *Beth maent yn ceisio newid?*
  - *Ar bwy neu beth maent yn ceisio dylanwadu?*
  - *Pwy sydd â'r dylanwad mwyaf dros y ffactor hwn?*

- *A yw'r astudiaeth achos hon yn mynd i'r afael ag unrhyw rai o'r ffactorau gwaith a flaenoriaethwyd gennych yn Sesiwn 1? A ydych yn meddwl bod y ffactorau y maent yn mynd i'r afael â nhw yn bwysig?*

- *Noder bod y cwestiynau uchod wedi'u darparu ar sleid 15.*
- Dylai un person o bob grŵp wedyn ymuno â pherson o grŵp gwahanol a rhannu syniadau eu grwpiau.

Gweithgaredd 3 *(25 munud)*

Beth ydych chi eisiau i'r dyfodol?

- Gofynnwch i'r dysgwyr fyfyrio ar *Ffactorau gwaith gweddus* o Sesiwn 1. Trafodwch y cwestiynau canlynol:
  - *A oedd unrhyw beth ar goll?*
  - *A oes unrhyw rai wedi newid eu meddwl am ba faterion sydd bwysicaf? Beth ydych chi'n meddwl nawr, a pham eich bod yn meddwl hyn?*
- Ysgrifennwch *Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru, Cyflogwyr* a *Fi* ar ddarnau gwahanol o gerdyn a'u gosod ym mhedwar cornel yr ystafell. Adroddwch benawdau *Ffactorau gwaith gweddus – Fersiwn A* a gofynnwch i'r dysgwyr sefyll wrth y cerdyn gydag enw'r grŵp neu'r person y maent yn credu a all ddylanwadu fwyaf ar y ffactor hwn. Os yw'r dysgwyr wedi'u hollti rhwng dewisiadau, gallant sefyll hanner ffordd rhwng y corneli (neu yng nghanol y pedwar). Gwahoddwch ddysgwyr sy'n sefyll mewn gwahanol fannau i roi rhesymau dros eu dewisiadau.
- Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr luniadu siâp person syml ar ganol darn o bapur a rhannu'r ardal o amgylch y person yn dair rhan. Dylai'r dysgwyr wedyn ysgrifennu eu tri *Ffactor gwaith gweddus* pennaf o amgylch y person, un ym mhob rhan.
- Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y cwestiynau canlynol mewn parau, a'u trafod:
  - *Beth mae'r ffactorau hyn yn meddwl i mi?*
  - *Pwy sy'n dylanwadu ar y ffactorau hyn? Sut maent yn dylanwadu ar y ffactorau hyn?*
  - *Sut gallwch chi ddylanwadu ar y ffactorau hyn?* Gallai'r dysgwyr gyfeirio at *Pwy sy'n dylanwadu ar b'un a yw gwaith yn weddus?* i gynorthwyo eu trafodaeth.
- Cyflwynwch gystadleuaeth *Creu Cymru deg*. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl ba neges allweddol yr hoffent ei rhannu gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwaith gweddus a sut beth ddylai gwaith fod.
- Dylai'r dysgwyr ystyried hyn yn unigol ac wedyn trafod eu syniadau mewn parau neu grwpiau bach.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

Pwy sy'n dylanwadu ar b'un a yw gwaith yn weddus?

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr oll ddylanwad ar amodau gwaith pobl.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y pŵer i osod isafswm cyflog, cyfraddau tâl salwch, nifer y diwrnodau o wyliau blynyddol a'r hawl i wneud cais am weithio hyblyg.

Dyma enghreifftiau o'r lleiafswm y mae gan gyflogai hawl iddynt:

- Isafswm Cyflog Cenedlaethol: £6.70 yr awr
- Tâl salwch statudol: £88.45 yr wythnos
- Hawl i wyliau: 28 diwrnod y flwyddyn o wyliau â thâl
- Gweithio hyblyg: mae gan bob cyflogai yr hawl i wneud cais am weithio hyblyg ar ôl 26 wythnos o gyflogaeth.

Llywodraeth Cymru

Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio rhai o'r pwerau sydd ganddi i annog cyflogwyr i wneud mwy na'r isafswm. Mae gan Lywodraeth Cymru fwy o reolaeth dros y sector cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn gyflogwyr mawr ynddynt eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i wneud mwy na'r lleiafswm:

- Mae holl staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn ennill o leiaf y Cyflog Byw
- Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig
- Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o wobrau am ei bolisïau a'i arferion yn y gweithle ac yn 2015 cyrhaeddodd y rownd derfynol yng ngwobrau Teuluoedd sy'n Gweithio am arferion gweithio hyblyg.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio ei phŵer prynu [caffael] i annog cwmnïau'r sector preifat i wneud mwy na'r lleiafswm. Pan fo Llywodraeth Cymru, neu unrhyw gorff cyhoeddus, eisiau gwario arian ar wasanaethau neu brosiectau – er enghraifft pan maent eisiau i gwmni adeiladu heol newydd neu ddarparu gwasanaethau gofal – mae'n rhaid iddynt roi'r contract allan i dendr fel y gall nifer o gwmnïau roi cynnig am y contract. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gofyn i rai cwmnïau ddangos sut byddant yn cyrraedd nodau cymdeithasol ac amgylcheddol yn ogystal â sicrhau gwerth am arian. Mae Llywodraeth yr Alban yn ystyried sut mae busnes yn ymdrin â'i

gyflogeion fel rhan o'i pholisi caffael, sy'n golygu bod gofyn i gwmnïau ddangos bod ganddynt ymagwedd gadarnhaol at eu gweithlu.

Cyflogwyr

Gall cyflogwyr eu hunain hefyd ddewis gwneud pethau'n wahanol. Er enghraifft, mae rhai eisoes yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig drwy'r Sefydliad Cyflog Byw, sy'n golygu bod pob un o'u cyflogeion yn ennill o leiaf £8.25 yr awr.

Mae gan gyflogwyr hefyd reolaeth mwy uniongyrchol dros les cyflogwyr a sut mae'r gweithle yn rhedeg o ddydd i ddydd. Bydd gan wahanol gyflogwyr agweddau gwahanol at faint o ryddid sydd gan gyflogeion i osod eu llwyth gwaith, faint o ddiwrnodau o wyliau maen nhw'n cael, faint o gyfleoedd sydd ganddynt i dderbyn hyfforddiant datblygu proffesiynol a pha mor hyblyg y gallant weithio.

Y Cyhoedd yn y Deyrnas Unedig

Ydy, mae hyn yn dy gynnwys di. Gall aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig gysylltu â'u Haelodau Seneddol (ASau) i siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Gallwch ysgrifennu at eich AS a threfnu i gwrdd â nhw i drafod y materion sy'n bwysig i chi. Yng Nghymru, gallwch gysylltu â'ch Aelod Cynulliad (AC) i godi materion sy'n bwysig i bobl yng Nghymru. Fel cyflogeion a darpar gyflogeion, gallwch siarad gyda'ch cyflogwr am yr amodau gwaith. Os ydych yn mynd i gyfweliad, paratowch i ofyn cwestiynau ynglŷn â pha amodau mae'r cyflogwr yn cynnig. Yn eich gweithle, gallwch siarad gyda'ch cyflogwyr ynglŷn â'r amodau. Gallwch gymryd camau bach a mawr i helpu i gyfrannu at awyrgylch gwaith cadarnhaol.

Oxfam: *Unioni'r glorian* a gwneud Cymru yn genedl Cyflog Byw

Bws *Unioni'r glorian* yn ymweld â Chaerdydd
Llun: Glenn Smith

Mae Oxfam yn elusen datblygu rhyngwladol sy'n gweithio mewn mwy na 90 o wledydd ledled y byd, yn cynnwys Cymru. Mae Oxfam yn pryderu bod y bwlch rhwng y bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf yn y byd yn cynyddu.

Ym mis Hydref 2015, ymwelodd bws ymgyrch Oxfam, *Unioni'r Glorian*, â chanol Caerdydd i godi ymwybyddiaeth o'r tlodi a'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o amgylch y byd. Roedd y bws yn defnyddio'r ystadegyn bod gan 80 o bobl gyfoethocaf y byd yr un cyfoeth ag sydd gan hanner dlotaf poblogaeth y byd – cyn lleied o bobl fel y gallant oll ffitio ar fws deulawr. Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddodd Oxfam adroddiad i ddiweddaru'r ystadegyn hwn. Mae gan 62 o bobl gyfoethocaf y byd yr un cyfoeth ag sydd gan hanner poblogaeth y byd ac mae'r un y cant cyfoethocaf yn berchen ar gymaint â gweddill poblogaeth y byd.

Ar hyn o bryd, mae 23% o aelwydydd Cymru yn byw mewn tlodi cymharol ac mae Oxfam Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud Cymru yn genedl Cyflog Byw. Mae'r Cyflog Byw yn dâl yr awr sy'n cael ei gyfrifo ar sail cost byw. Caiff ei gyfrifo yn flynyddol gan y Sefydliad Cyflog Byw. Cyflog Byw y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yw £8.25 yr awr.

Drwy gydol y dydd, bu Oxfam yn holi aelodau'r cyhoedd i ddyfalu pa ganran o'r bobl sy'n gweithio yng Nghymru sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw. Cafodd llawer eu synnu wrth glywed mai'r ateb yw 25%. Gofynnwyd i bobl hefyd 'A ddylai pawb yng Nghymru ennill y Cyflog Byw?' ac atebodd 99% y dylent.

Mwy o wybodaeth am y Cyflog Byw:

- Y Sefydliad Cyflog Byw: http://www.livingwage.org.uk/
- GIG Cymru yn dod yn gyflogwr Cyflog Byw, 2014: http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/lowest-paid-nhs-staff-wales-receive-7395693
- Dadleuon yn erbyn y Cyflog Byw: http://www.iea.org.uk/blog/living-wage-likely-to-destroy-jobs-and-increase-poverty

Llywodraeth y Deyrnas Unedig: *Mynediad i Waith*

Gall pobl sydd ag anabledd, neu gyflwr iechyd neu iechyd meddwl, wynebu rhwystrau wrth ddod o hyd i waith. Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig raglen *Mynediad i Waith* i gynorthwyo gweithwyr yn y DU i oresgyn y rhwystrau hyn. Grant yw *Mynediad i Waith* a all dalu am gymorth ymarferol i bobl sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd neu iechyd meddwl, gan helpu pobl i ddechrau gweithio, parhau i weithio, troi i fod yn hunangyflogedig neu gychwyn busnes.

Llun: Max Barners, Creative Commons
http://bit.ly/1Ql3BEi

Dyma enghreifftiau o'r hyn y gall grant Mynediad i Waith ddarparu:

- Cyfathrebwr neu ddehonglwr iaith os oes gennych nam ar y clyw neu anawsterau cyfathrebu
- Gweithiwr cymorth, er enghraifft darllenydd i rywun sydd â nam ar y golwg
- Offer arbenigol
- Addasiadau i amgylchedd gwaith i'w wneud yn fwy hygyrch

Mwy o wybodaeth am *Fynediad i Waith*:

- Gwefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig: https://www.gov.uk/access-to-work

- Disability Rights UK: http://www.disabilityrightsuk.org/access-work

Admiral: mae gweithwyr hapus yn well gweithwyr

Yn 2015, cyhoeddodd Buddsoddwyr mewn Pobl adroddiad a nodai fod 6 o bob 10 o weithwyr yn y Deyrnas Unedig yn anhapus yn eu swyddi.

Cwmni gwasanaethau ariannol yw Admiral sy'n arbenigo mewn darparu yswiriant car. Meddai gwefan y cwmni: '*happy people make happy customers and happy customers make for a successful, thriving company*'.

Llun: David Goehring, Creative Commons http://bit.ly/1JWeZVS

Mae Admiral yn cynnig amrywiaeth o fuddion i'w cyflogeion i sicrhau eu bod yn hapus:

- Rhoddir cyfranddaliadau yn y cwmni i'r holl gyflogeion, sy'n golygu eu bod yn berchen ar ran o'r cwmni. Mae hyn yn golygu bod y cyflogeion yn cael bonws pan fo'r cwmni'n gwneud yn dda.
- Ffrwythau am ddim bob dydd
- Defnydd am ddim o aelodaeth campfa gorfforaethol
- Gweithio hyblyg
- Benthyciadau tocyn tymor
- Talebau gofal plant
- Gofal dannedd
- Gostyngiadau i staff
- Hyfforddiant mewn swydd i'ch helpu i ddatblygu
- Digwyddiadau hwyl rheolaidd
- Cael gwisgo'n anffurfiol

Mwy o wybodaeth am yr hyn mae Admiral yn cynnig i'w staff:

- https://admiraljobs.co.uk/what-we-offer/

Ymgyrch *Mind the Pay Gap*

Yn 2014, cyhoeddwyd ffigurau newydd a ddangosai fod y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn eu hugeiniau wedi dyblu yn y tair blynedd blaenorol. Yn sgil hyn, lansiwyd ymgyrch gan *Grazia*, cylchgrawn wythnosol i fenywod, yn gofyn i gwmnïau sydd â 250 neu ragor o gyflogeion gyhoeddi manylion cyflog awr dynion a menywod fel cam cyntaf tuag at gau'r bwlch cyflog. Credai *Grazia* y byddai mwy o dryloywder yn helpu i gau'r bwlch cyflog gan y gallai pobl gael gwybod beth yw cyflog pobl eraill sy'n gwneud yr un swyddi neu swyddi tebyg.

Gofynnodd *Grazia* i'w ddarllenwyr lofnodi deiseb ar-lein yn galw ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig weithredu, a gofyn i bobl rannu eu storïau gan ddefnyddio'r hashnod #whatimworth.

Ym mis Mawrth 2015, dathlodd ymgyrch *Mind the Pay Gap* newid yn y gyfraith i gynyddu tryloywder cyflogau er mwyn i fenywod a dynion allu herio achosion o gyflog annheg.

Mwy o wybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau:

- Ymgyrch *Mind the Pay Gap*: http://www.graziadaily.co.uk/fashion/shopping/are-you-fed-up-of-the-gender-pay-gap-it-s-time-to-do-something-about-it-20141124213

- Diwrnod Cyflog Cyfartal 2015 – wedi'i esbonio gan elusen cydraddoldeb rhywedd Chwarae Teg: https://www.cteg.org.uk/equal-pay-day-2015/

Diwrnod Hawliau Gofalwyr: Cynulliad Gofalwyr i fynegi llais gofalwyr yng Nghymru

Llun: Gareth Williams, Creative Commons
https://www.flickr.com/photos/gareth1953/6235576710/

Mae mwy na 370 000 o bobl yng Nghymru yn ofalwyr, a bydd tri o bob pump ohonom yn ofalwyr ar ryw adeg yn ein bywyd. Dyma ddiffiniad Ymddiriedolaeth y Gofalwyr o ofalwr:

'*unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn methu ag ymdopi heb y cymorth. Gall unrhyw un fod yn* ofalwr*; daw* gofalwyr *o bob math o gefndiroedd, o bob diwylliant, a gallant fod o unrhyw oedran.'*

Mae Gofalwyr Cymru yn gweithio i gynorthwyo gofalwyr drwy ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth. Ar *Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr*, cynhaliwyd Cynulliad y Gofalwyr gan Ofalwyr Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Teithiodd gofalwyr o bob rhan o Gymru i gynnal dadl ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd hyn yn helpu gofalwyr i leisio eu barn fel bod Aelodau'r Cynulliad, sy'n cyfrannu at lunio polisïau sy'n effeithio ar ofalwyr, yn deall y materion ym maes gofal cymdeithasol sydd o bwys i ofalwyr a pha newidiadau hoffai gofalwyr weld.

Amcangyfrifir bod y gofal sy'n cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn werth £8.1 biliwn y flwyddyn, ac awgryma Gofalwyr Cymru y byddai'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn dymchwel heb gymorth gofalwyr.

Mae Carers UK wedi llunio *Upfront,* sef canllaw newydd ar-lein yn ymwneud â gofalu, ac mae'n darparu gwybodaeth ariannol ac ymarferol i helpu gofalwyr i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mwy o wybodaeth am waith gofal:

- Canllaw *Upfront*: https://www.carersuk.org/upfront/

- Gofalwyr Cymru – Cynulliad y Gofalwyr ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr http://www.carersuk.org/wales/news/carers-rights-day-carers-assembly-2015

Blodeuwriaeth a Menter

Sylwodd Jacqui, aelod o staff mewn sefydliad cymunedol ym Mhontypridd, nad oedd gan rai aelodau'r gymuned hyder na sgiliau cyllidebu. Gan ddefnyddio ei diddordeb mewn blodau, sefydlodd Jacqui gwrs mentergarwch a blodeuwriaeth.

Gweithdy mentergarwch Llun: Glenn Smith

Yn ogystal â dysgu sgiliau trefnu blodau a mentergarwch ar y cwrs, datblygodd y cyfranogwyr eu hyder a sgiliau sylfaenol bywyd fel cyllidebu, gweithio fel tîm a threfnu.

Cymerodd 20 o bobl o'r gymuned leol ran ar y cwrs, a thrwyddo cawsant gymhwyster i ddangos y sgiliau mentergarwch a ddatblygwyd ganddynt. Yn ôl y cyfranogwyr, roedd eu hyder wedi cynyddu o ganlyniad i ddilyn y cwrs, ac aeth llawer ohonynt ymlaen i ganfod swydd. Penderfynodd un cyfranogwr ddefnyddio ei sgiliau trefnu blodau a gwybodaeth am fusnes i greu a gwerthu trefniadau blodau drwy Facebook ac mewn ffeiriau crefft Nadolig. Daeth eraill o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a chawsant eu hyfforddi i fod yn fentoriaid er mwyn iddynt allu rhannu eu sgiliau a helpu eraill yn y gymuned.

Dyma rai o sylwadau'r cyfranogwyr:

"Nid yn unig fy mod i wedi mwynhau popeth ry'n ni wedi'i ddysgu, ond rwy wedi gwneud ffrindiau newydd sydd wedi fy nghael i ddod o fy rhigol. Mae'n drueni na fyddai'n mynd ymlaen am flwyddyn arall. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli y gallai dysgu fod yn gymaint o donig."

"Rwy wastad wedi bod â diddordeb mewn blodau, ond doeddwn i ddim yn meddwl y gallwn i wneud hyn. Mae bod ar y cwrs wedi rhoi hwb i fy hyder, a gwneud i mi gredu y galla i wneud hyn. Rwy'n gwybod at bwy i droi i gael cymorth gyda fy CV."

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.